OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 735 (Cy. 184) (C. 34)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021

*Gwnaed - - - - 21 Mehefin 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi E+W**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 E+W**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3—

(a) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) adrannau 17 i 36;";

(b) yn lle is-baragraff (xxv) o baragraff (o) rhodder—

"(xxv) paragraff 24(3) a (6)(a)."

(3) Yn erthygl 6—

(a) yn lle paragraff (c) rhodder—

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12).

"(c) adrannau 17 i 36;";

(b) yn lle is-baragraff (xxv) o baragraff (o) rhodder—

"(xxv) paragraff 24(3) a (6)(a)."

(4) Ar ôl erthygl 7 mewnosoder—

"**7A.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Atodlen i'r Ddeddf i rym ar 22 Mehefin 2021—

(a) paragraff 24(1) at ddiben y ddarpariaeth ym mharagraff (b);

(b) paragraff 24(4)."

(5) Yn erthygl 8—

(a) o flaen paragraff (a) mewnosoder—

"(za) adran 16;";

(b) yn lle is-baragraff (xl) o baragraff (j) rhodder—

"(xl) paragraff 24(2), (5) a (6)(b) ac (c)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 E+W

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3—

(a) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) adrannau 17 i 36;";

(b) yn lle is-baragraff (xxv) o baragraff (o) rhodder—

"(xxv) paragraff 24(3) a (6)(a)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 E+W

**4.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**4**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3—

(a) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) adrannau 17 i 36;";

(**3**) O.S. 2021/381 (Cy. 120) (C. 13), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/516 (Cy. 153) (C. 17).
(**4**) O.S. 2021/383 (Cy. 121) (C. 14), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/516 (Cy. 153) (C. 17).

(b) yn lle is-baragraff (xxv) o baragraff (o) rhodder—

"(xxv) paragraff 24(3) a (6)(a)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar y dyddiad gwneud

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

21 Mehefin 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021, Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 a Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 ("y Gorchmynion Cychwyn") sy'n dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchmynion Cychwyn wedi eu diwygio fel bod adran 16 o'r Ddeddf (diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yn dod i rym yn llawn ar 1 Medi 2021, a pharagraff 24(4) o'r Atodlen i'r Ddeddf yn dod i rym yn llawn ar 22 Mehefin 2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021.